

# Cynhaliaeth

## Darllen: Mathew 26:39

Dowch i ni, am ychydig, ystyried y pethau sy'n ein cynnal o ddydd i ddydd. Pan oedden ni'n blant roedd cynhaliaeth rhieni a gwarchodwyr yn bwysig i ni. Meddylwch am funud am fabi bach – mae'n dibynnu'n llwyr ar gynhaliaeth ei rieni i'w fwydo, i'w ymgeleddu ac i ofalu amdano. Fel mae'r baban yn tyfu, mae'n dal i ddibynnu ar ofal ei rieni. Wrth i'r plentyn ddechrau mynd i'r ysgol, yr un peth y mae'n ei golli'n fwy na dim ydi colli mam. A mawr ydi'r dagrau, nes ei fod wedi ymgynefino ag awyrgylch newydd yr ysgol. Yno, mae'r plentyn yn dibynnu ar gynhaliaeth yr athrawon i'w arwain yn foesol, yn feddyliol ac yn gorfforol. Wedyn mae'n dibynnu ar gynhaliaeth cymheiriaid a chyfeillion. Ac yn ei dro, bydd yn magu teulu ei hunan, a bydd cynhaliaeth newydd yn datblygu a thyfu.

I'r Cristion, mae cynhaliaeth arall: cynhaliaeth Duw. Gofynnwn yn awr, pwy oedd yn cynnal Iesu yn ystod ei weinidogaeth? Yr ateb pendant yw mai Duw oedd yn ei gynnal. Droeon yn yr Efengylau, cyfeirir at Iesu'n mynd ar ei ben ei hun i weddio, 'Aeth ymaith i le unig, ac yno yr oedd yn gweddio' (Marc 1:35). Ac mae'n annog ei ddisgyblion i'w efelychu, 'Dewch chwi eich hunain o'r neilltu i le unig a gorffwyswch am dipyn' (Marc 6:31). Yn ôl Mathew, mae Iesu, yng Ngethsemane ychydig oriau cyn y croeshoelio, yn dweud wrth y disgyblion am aros gyda'i gilydd 'tra byddaf fi'n mynd fan draw i weddio' (Mathew 26:36). Perthynas agos â Duw yw ffynhonnell ei nerth. Ond o fewn cenedlaeth wedi'r croeshoeliad, yr oedd ei ddilynwyr yn ei gyffesu'n 'Fab Duw' ac yn ei ddisgrifio yn nhermau Duw ei hun. Roeddent yn ei addoli ac yn gweddio arno ac yn ei gydnabod fel y Meseia hir-ddisgwyliedig. Y cwestiwn yn awr yw, ai Iesu ei hun, yn ystod ei weinidogaeth, a hawliodd ei fod yn 'Fab Duw'? Ynteu ai ei ddilynwyr a ddaeth i'r penderfyniad fod Iesu'n fwy na dyn cyffredin, a bod i'w gymeriad yn ystod dyddiau ei gnawd wedd ddwyfol, ac felly mai hwn oedd y Meseia yr oedd y genedl wedi disgwyl amdano?

O droi at yr efengylau, ychydig o dystiolaeth sydd fod Iesu'n arddel y teitl 'Mab Duw'. Mae'n fwy parod i ddefnyddio'r teitl 'Mab y Dyn' a fabwysiadwyd o broffwydoliaeth Daniel a Llyfr Enoc. Ond wedi dweud hyn, mae'n gwbl amlwg fod Iesu'n ymwybodol o'r berthynas agos rhyngddo â Duw. Roedd ei holl fywyd yn berthynas ddofn â Duw; ac o'r berthynas hon y tarddai ei nerth, ei dynerwch, ei gariad a'i ddylanwad ar bawb yn ddiwahân. Droeon, fe gyfeiriodd at Dduw fel 'Tad', hyd yn oed yn ei wewyr eithaf ar y groes, 'O Dad, i'th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd' (Luc 23:46).

Mae'n wir dweud bod ei ddilynwyr hefyd yn ymwneud â pherson nad oedd modd ei ddiffinio na'i esbonio'n foddhaol mewn termau dynol yn unig. Siaradai ag awdurdod, a chyflawnodd wyrthiau a'u priodoli i allu Duw yn gweithredu trwyddo. Daeth ei ddilynwyr i'w amgyffred fel Mab Duw trwy ei addfwynder a'i ostyngaidrwydd, ac yr oeddent yn barod i gyfeirio ato fel y 'Meseia', 'Arglwydd' a 'Mab Duw'.

Felly, nid person hanesyddol yn unig yw Iesu, ond un sy'n dal i gynnal ei bobl. Ac i laweroedd heddiw, mae'n Berson Byw, sy'n dangos i ni sut un yw Duw ac yn gallu trawsffurfio pobl a newid bywyd y byd.

### **Myfyrdod pellach:**

A ellir aros efo un math o Grist, sef y Crist dynol, y Crist oedd yn ddyn yn unig?

'Dwy natur mewn un person,' chwedl Ann Griffiths. Sut mae diffinio hyn?